Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# Y Gwasanaeth Cyfieithu

Pecyn Gwybodaeth

Gwanwyn 2025

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Bennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu | 3 |
| Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru | 4 |
| Rhannu gair o brofiad | 8 |
| Gofynion y swydd a'r Cynllun Datblygu | 12 |
| Y broses recriwtio | 15 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51482, ISBN digidol 978-1-83715-338-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Diolch ichi am eich diddordeb yng Ngwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru. Dyma osod y swyddi a hysbysebwyd yn eu cyd-destun, drwy gynnig ichi ddarlun o'r Gwasanaeth Cyfieithu, ei gylch gwaith a'r ffordd y bydd yn cyflenwi gwasanaethau cyfieithu i gefnogi Gweinidogion Cymru.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn un o wasanaethau corfforaethol craidd y Llywodraeth, ac mae'n cyflenwi gwasanaeth hanfodol er mwyn cefnogi busnes y Llywodraeth a blaenoriaethau'r Gweinidogion. Mae'n wasanaeth sy'n allweddol i gynorthwyo'r Llywodraeth i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac â gofynion Rheolau Sefydlog y Senedd, ac i roi'r iaith ar waith mewn sefydliad sy'n gwasanaethu pobl Cymru ac yn gwneud gwahaniaeth i'w bywyd bob dydd.

Mae holl swyddi'r Gwasanaeth Cyfieithu yn swyddi yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfieithwyr hefyd yn aelodau o'r proffesiwn cyfieithu yn y Llywodraeth ac yn gweithio mewn tîm sy'n cefnogi ac yn hybu datblygiad y proffesiwn cyfieithu o fewn y sefydliad ac yn ehangach.

Ers blynyddoedd bu'r Gwasanaeth Cyfieithu yn wasanaeth Cymru-gyfan, wrth i'r tîm weithio o bob cwr o Gymru a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i weithio ar stepen eu drws o bum swyddfa ledled y wlad. Ac ers 2020, datblygodd y gweithio o swyddfeydd ar wasgar yn weithio gartref, a phob aelod o'r tîm yn defnyddio'r dechnoleg newydd i ddarparu gwasanaethau yn hyblyg o'u cartrefi.

Rwy'n mawr obeithio y bydd darllen am weithio fel cyfieithydd yn y Gwasanaeth Cyfieithu, a chlywed am brofiadau rhai o'n cyfieithwyr, yn eich denu i ymgeisio am swydd gyda ni. Mae'r swyddi yn sicr yn gyfle i ieithyddion da ddatblygu gyrfa lewyrchus, yn rhan o'r tîm sydd o ddydd i ddydd yn cefnogi Llywodraeth ddatganoledig Cymru i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon i bobl Cymru.



**Meinir Pritchard**
**Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu**

# Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru

Swyddogaeth y Gwasanaeth Cyfieithu yw cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog ac yn unol â Safonau'r Gymraeg a Rheolau Sefydlog y Senedd.

## Ein prif wasanaethau

- **Cyfieithu testunau cyffredinol** (o'r Saesneg i'r Gymraeg yn bennaf) ar gyfer y Prif Weinidog a'i Gabinet ac ar ran swyddogion yr adrannau polisi.
- **Cyfieithu testunau deddfwriaethol** (o'r Saesneg i'r Gymraeg yn bennaf), sef cyfieithu Biliau ac is-ddeddfwriaeth ar gyfer Gweinidogion Cymru.
- **Cyfieithu ar y pryd (CAP)** o'r Gymraeg i'r Saesneg yn bennaf ar gyfer y Gweinidogion ac uwch-swyddogion.
- **Safoni a rheoli terminoleg ac arddull** gan gynnwys darparu a chynnal BydTermCymru a chydweithio â phartneriaid allanol yn y maes.

### Cyfieithu testunau

Mae ein meysydd gwaith yn adlewyrchu ehangder y meysydd pwnc sydd wedi'u datganoli i Gymru ac sy'n gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru (ee, iechyd, addysg, llywodraeth leol). Swyddogaeth y ddwy uned gyflenwi (yr Uned Cyfieithu Cyffredinol a'r Uned Cyfieithu Deddfwriaeth) o fewn y Gwasanaeth Cyfieithu yw cyfieithu'r deunyddiau hynny y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Dyma destunau sy'n rhoi ar waith bolisïau Llywodraeth Cymru ac a fydd, yn sgil eu cyhoeddi, yn effeithio ar fywydau pawb yng Nghymru.

Mae rhychwant y meysydd pwnc yn eang, felly rydym wedi'u clystyru i ffurfio portffolios gwaith yn y ddwy uned gyflenwi, ac wedi rhannu'r cyfieithwyr yn dimau sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol. Caiff pob un o'r timau hyn eu rheoli gan Arweinydd Tîm, a bydd y timau yn cydweithio ac yn helpu ei gilydd i ddiwallu'r gofyn am gyfieithu. Byddwn hefyd yn comisiynu cwmnïau cyfieithu drwy gytundeb fframwaith i helpu gyda'r gwaith o ddiwallu gofynion cyfieithu'r sefydliad, yn enwedig ar adegau prysur.

### Mathau o waith

Bydd yr Uned Cyfieithu Testun yn delio â phob math o destunau, gan gynnwys dogfennau polisi, canllawiau, areithiau i Weinidogion, datganiadau i'r wasg, testunau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a gohebiaeth. Bydd natur y gwaith fel arfer yn adlewyrchu gweithgaredd y Llywodraeth a'r dogfennau y bydd yn flaenoriaeth i'r Gweinidogion eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

Bydd yr Uned Cyfieithu Deddfwriaeth yn canolbwyntio ar gydweithio'n agos â chyfreithwyr y Llywodraeth i lunio testunau Cymraeg a Saesneg o ddeddfwriaeth sydd o'r un statws cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu a drafftio testunau deddfwriaethol, diwygio testunau deddfwriaethol, ac adolygu testunau deddfwriaethol a ddrafftiwyd gan gyfreithwyr. Bydd y cyfieithwyr yn cydweithio â'r cyfreithwyr i sicrhau cyfwerthedd y testunau Cymraeg a Saesneg.

## Cyfieithu ar y pryd

Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd a gynhelir gan y Gweinidogion. Rydym hefyd yn rhoi cyngor yn ôl y galw i swyddogion polisi wrth iddynt gomisiynu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd eraill a gynhelir gan Lywodraeth Cymru.

## Terminoleg ac Arddull

Mae safoni a rheoli terminoleg yn rhan annatod o gylch gwaith gwasanaeth cyfieithu mewn sefydliad mawr fel y Llywodraeth.

Yn ogystal â safoni terminoleg at ddibenion y Gwasanaeth ei hun, rydym hefyd yn cynghori adrannau Llywodraeth Cymru ar faterion terminolegol ac yn cydweithio'n agos â Chomisiynydd y Gymraeg ym maes safoni enwau lleoedd Cymraeg.

Mae TermCymru bellach wedi hen ymsefydlu yn gronfa helaeth a dibynadwy o dermau safonol y gwahanol feysydd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â nhw. Mae'n cynnwys enwau cynlluniau a rhaglenni'r Llywodraeth, ynghyd â theitlau llawer o'r dogfennau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth a chan gyrff cyhoeddus eraill. Caiff y gronfa ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn rhannu'r termau newydd hynny sy'n codi yng ngwaith Llywodraeth Cymru – ac ar gyfer eu defnyddio yn ehangach a'u prif-ffrydio a'u normaleiddio yn y Gymraeg.

Ers 2015, mae TermCymru yn rhan o adnodd ehangach BydTermCymru. Yn BydTermCymru ceir llawer o adnoddau ychwanegol megis yr Arddulliadur ar ffurf chwiladwy, copïau o ganllaw arddull a geirfa ddrafftio deddfwriaethol, casgliad o arwyddion ffyrdd safonol, a chofau cyfieithu parod.


## Ein Tîm

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn cyflogi dros 40 o staff amser llawn a rhan-amser. Cyfieithu testunau i'r Gymraeg yw prif waith y Gwasanaeth ac, o'r herwydd, disgwylir i bob rheolwr, arbenigwr, uwch-gyfieithydd a chyfieithydd gyfrannu at y gwaith hwnnw. Dyna pam y byddwn bob amser yn profi gallu cyfieithu pob ymgeisydd pan fyddwn yn recriwtio i'r swyddi hynny.

Mae'r dechnoleg – technoleg y Llywodraeth ond hefyd y dechnoleg gyfieithu arbenigol – yn  rhan annatod o ddull gweithio'r Gwasanaeth Cyfieithu ac mae pob aelod o'r tîm yn dibynnu ar dechnoleg i hwyluso cydweithio'n effeithiol ledled Cymru, boed hynny mewn swyddfa neu o'u cartrefi. Gall holl aelodau'r tîm bellach gyfuno gweithio mewn swyddfa a gweithio gartref gan ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael drwy rwydwaith y Llywodraeth.

## Y Cyfieithwyr

Bydd ein Cyfieithwyr yn gweithio dan oruchwyliaeth Uwch-gyfieithydd profiadol a fydd yn adolygu eu holl gyfieithiadau cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Yn ogystal â derbyn adborth ar bob darn o waith, bydd staff ar y lefel hon yn dilyn fframwaith datblygu am ryw 18 mis yn y prif agweddau ar waith y Gwasanaeth, gan gynnwys cyfieithu testunau, cyfieithu deddfwriaethol a hanfodion terminoleg ac arddull. Y nod yw i'r Cyfieithwyr fireinio eu sgiliau yn ddigonol i ennill dyrchafiad i swydd Uwch-gyfieithydd yn y pen draw.



## Yr Uwch-gyfieithwyr

Mae'r Uwch-gyfieithwyr yn gyfieithwyr profiadol sy'n meddu ar sgiliau iaith ardderchog ac sy'n medru gwneud gwaith o safon uchel heb oruchwyliaeth barhaus. Byddant hefyd yn goruchwylio, yn mentora ac yn rheoli Cyfieithwyr, ac yn cyfrannu at feysydd eraill megis cyfieithu ar y pryd; golygu, prawfddarllen, adolygu a diwygio testunau; a safoni terminoleg.

## Arweinwyr y timau cyfieithu

Mae'r arweinwyr timau yn gyfieithwyr hynod brofiadol sydd hefyd yn meddu ar y gallu i reoli ac arwain timau o uwch-gyfieithwyr a chyfieithwyr. Y nhw sydd yn gyfrifol am arwain prosiectau cyfieithu, ac am ddyrannu'r gwaith o fewn eu timau.

## Yr Uned Ddatblygu

Mae'r uned hon yn arwain ar faterion terminoleg, arddull, iaith ac ansawdd, ac yn gyfrifol am BydTermCymru. Mae hefyd yn arwain ar faterion datblygu proffesiynol, yn gyfrifol am gynnal prosesau recriwtio, ac yn cynnal gweithgareddau profiad gwaith i brifysgolion. Yr uned hefyd sy'n gyfrifol am hybu a hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg arbenigol, ee cofau cyfieithu, cyfieithu peirianyddol a systemau cribo, rheoli a rhannu terminoleg.

## Yr Uned Fusnes

Wrth graidd y Gwasanaeth Cyfieithu mae tîm o swyddogion busnes sy'n gyfrifol am yr holl agweddau gweinyddol ar waith y Gwasanaeth. Yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt cyntaf i'n cwsmeriaid, maent hefyd yn paratoi darnau ar gyfer eu cyfieithu gan ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu, yn rhoi gweithdrefnau llywodraethiant a rheoli gwybodaeth ar waith, yn darparu cymorth i'r tîm rheoli ac i'r cyfieithwyr yn gyffredinol, ac yn cyd-drefnu'r gwaith cyfieithu allanol.

## Y tîm rheoli

Mae'r tîm rheoli yn cynnwys Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu, Pennaeth yr Uned Cyfieithu Deddfwriaeth, y Pennaeth Cyfieithu Cyffredinol a CAP, a'r Pennaeth Busnes a Datblygu. Er bod y rheolwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar arwain gwahanol agweddau ar waith y Gwasanaeth, maent i gyd yn ieithyddion profedig sy'n cyfrannu at wahanol agweddau ar y swyddogaethau cyfieithu.

# Rhannu gair o brofiad

## Nia Jenkins,
## Uwch-gyfieithydd

Ymunais â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru yn 2019 ar ôl gweithio i ddau gwmni cyfieithu annibynnol ac yn y byd llyfrau. Roeddwn yn awyddus i fireinio fy sgiliau cyfieithu ac achub ar y cyfle i ddatblygu fy ngyrfa ymhellach. Mae'r cynlluniau datblygu trylwyr, y cyfleoedd newydd, yr hyfforddiant trefnus a'r holl anogaeth ac adborth adeiladol a gefais fel cyfieithydd ers ymuno â'r sefydliad hwn wedi bod yn werthfawr dros ben.

Wrth agor y cyfrifiadur yn y bore does dim dal pa fath o dasg sy'n ymddangos ar eich sgrin… gall y gwaith amrywio o'r creadigol i'r technegol, a dyna ran o'r apêl i mi. Weithiau, bydd angen creu negeseuon bachog ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol neu feddwl am sloganau slic ar gyfer ymgyrchoedd newydd. Droeon eraill bydd angen cyfieithu datganiadau i'r wasg, areithiau i wleidyddion, dogfennau polisi, neu ganllawiau a rheoliadau pwysig sy'n effeithio ar bob agwedd o fywydau pobl Cymru.

Rwy'n teimlo'n ffodus i weithio mewn tîm mawr a chyfeillgar sy'n cynnwys cyfieithwyr ac ieithyddion profiadol dros ben. Rydyn ni'n cadw mewn cysylltiad cyson ac mae'n gysur gwybod bod modd holi barn eraill yn y tîm yn ôl y galw. Dydych chi ddim ar eich pen eich hun fan hyn – mae'r arweinwyr timau yn arbenigwyr yn eu meysydd, mae'r uwch-gyfieithwyr yn cynnig awgrymiadau defnyddiol i staff newydd ac mae'r Terminolegydd wrth law hefyd os oes angen cyngor wrth fathu termau newydd. Mae gennym adnoddau TG o'r radd flaenaf ac mae'r feddalwedd cof cyfieithu yn hwyluso ein gwaith o ddydd i ddydd hefyd.

Ers y pandemig mae mwy a mwy o bobl wedi sylweddoli cymaint, yn wir, o feysydd mae gwleidyddion Cymru yn dylanwadu arnynt… o ward yr ysbyty i'r ystafell ddosbarth, o'r stryd fawr i glos y fferm. Bydd yr hyn rydych chi'n ei gyfieithu yn sicr o fod ymhlith pynciau llosg y dydd.

## Meinir Jones, Uwch-gyfieithydd



Ymunais â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru yn 2021 ar ôl gyrfa fel Gweithiwr Cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd am 16 o flynyddoedd. Er ei bod yn yrfa a oedd yn rhoi llawer o foddhad imi, a minnau'n fam i ddau o blant bach, penderfynais yn ystod y pandemig ei bod yn amser am newid.

Ochr yn ochr â'm gwaith o ddydd i ddydd ar y pryd, llwyddais i gwblhau cwrs Tystysgrif mewn Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, sy'n gwrs uwchraddedig a gynhelir gan Brifysgol Aberystwyth. Wedi hynny, daeth y cyfle i ymuno â Llywodraeth Cymru fel cyfieithydd, gan ddechrau ar yrfa gwbl newydd. Am y 18 mis cyntaf, cefais brofiadau a hyfforddiant gwerthfawr iawn yn rhan o gynllun cynefino a datblygu'r Gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, cefais brofiad o gyfieithu yn yr Uned Cyfieithu Cyffredinol a'r Uned Cyfieithu Deddfwriaeth, yn ogystal â chael blas ar waith yr Uned Ddatblygu. Roedd yr holl gyfleoedd a'r profiadau amrywiol hyn yn amhrisiadwy, ac ar bob cam o'r ffordd, roeddwn yn cael adborth a chyngor adeiladol iawn gan uwch-gyfieithwyr profiadol a oedd yn adolygu pob darn o waith roeddwn i wedi'i lunio. Rhoddodd y cyfnod hwn sylfaen wych imi fel cyfieithydd newydd gan fy helpu i ddatblygu a mireinio fy sgiliau cyfieithu.

Rwyf bellach yn uwch-gyfieithydd ac yn gweithio yn yr Uned Cyfieithu Cyffredinol. Mae'r gwaith yn amrywiol iawn ac yn ymdrin ag ystod eang o bynciau pwysig a diddorol. Mae arddull a chywair y darnau gwaith hefyd yn amrywio – o'r ffurfiol a'r lled-ddeddfwriaethol megis memoranda esboniadol, i destunau mwy cyffredinol megis gohebiaeth gan Weinidogion Cymru a deunyddiau i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd.

Rwy'n falch iawn fy mod yn cael gweithio mewn gwasanaeth sy'n gefnogol iawn. Mae pawb yn barod iawn i helpu a rhoi cyngor, ac rwy'n parhau i ddysgu a datblygu o hyd. Rwyf hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith fy mod yn cyfrannu at waith beunyddiol Gweinidogion Cymru a swyddogion y Llywodraeth, gan eu cynorthwyo i gyflawni eu blaenoriaethau, yn gwbl ddwyieithog, er budd pobl Cymru.

## Rhodri Owain, Uwch-gyfieithydd



Ymunais â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru yn 2019, fel cyfieithydd i ddechrau cyn symud ymlaen i swydd uwch-gyfieithydd yn ddiweddarach.

Roedd y cyfle i weithio mewn tîm mawr a phrofiadol yn apelio ac rwyf wedi elwa'n helaeth o gael cydweithio â chyfieithwyr dawnus sydd bob amser yn barod iawn i rannu o'u profiadau. Roedd y cyfle i ddatblygu fy ngyrfa yn rheswm mawr dros wneud cais i ymuno â'r Llywodraeth.

Yn ystod misoedd cyntaf fy swydd cyfieithydd, roeddwn yn dilyn rhaglen ddatblygu bwrpasol i'm helpu i wella a mireinio fy sgiliau, gan gael adborth bob dydd gan uwch-gyfieithydd profiadol ar fy ngwaith cyfieithu. Cefais gyfle i weithio yn yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol am gyfnod, gan gael blas ar y gwaith unigryw ac arbenigol o gyfieithu deddfwriaeth. Gwnaeth y rhaglen ddatblygu sicrhau fy mod yn cael pob cyfle i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i wneud gwaith o'r fath, ac i ddefnyddio'r eirfa a'r arddull priodol ar gyfer deddfwriaeth.

Ers hynny, rwyf wedi bod yn gweithio yn yr Uned Cyfieithu Cyffredinol gan gael profiad o gyfieithu pob math o ddogfennau, o'r ffurfiol iawn, megis Memoranda Esboniadol, i'r anffurfiol, megis negeseuon trydar, mewn meysydd fel Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Leol a Chyllid.

Mae yna hefyd lawer o gyfleoedd diddorol ehangach yn y Gwasanaeth Cyfieithu i gyfrannu at bethau fel technolegau cyfieithu, safoni termau a chysoni arferion. Mae felly ddigonedd o amrywiaeth yn y gwaith ac mae gwybod eich bod yn gwneud cyfraniad pwysig at waith hanfodol y Llywodraeth yn rhoi llawer o foddhad.

## Rhian Lyn Evans, Uwch-gyfieithydd



Ymunais â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru yn 2019. Cyn hynny roeddwn yn gweithio fel cyfieithydd mewn ysgol uwchradd ddwyieithog.

Un o brif atyniadau'r swydd gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu i mi oedd cael gweithio fel aelod o dîm mawr. Ar ôl gweithio ar fy mhen fy hun am lawer o flynyddoedd, mae'n braf, erbyn hyn, gallu troi at fy nghydweithwyr i drafod term neu i geisio eu barn ar y ffordd orau o fynegi ymadrodd neu frawddeg.

Pan ymunais â'r Gwasanaeth Cyfieithu fel cyfieithydd cefais fy mharu ag uwch-gyfieithydd a oedd yn gyfrifol am adolygu fy nghyfieithiadau a rhoi adborth imi ar fy ngwaith. Teimlaf fod y dull hwn o weithio wedi fy helpu i ymgyfarwyddo ag arddull y Gwasanaeth ac i ddatblygu fy sgiliau cyfieithu, yn arbennig ym maes cyfieithu deddfwriaethol, a oedd yn hollol newydd imi.

Fel rhan o'r cynllun cynefino a datblygu, rwyf wedi cael profiad o weithio gyda'r tîm cyfieithu testun a'r tîm cyfieithu deddfwriaethol ac wedi cael blas ar gyfieithu amrywiaeth eang o destunau, o ddarnau creadigol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i destunau deddfwriaethol. Mae wedi bod yn gyfle gwych imi ddysgu beth yw fy nghryfderau a darganfod pa fath o waith sy'n apelio fwyaf ataf.

Erbyn hyn rwyf wedi ymgartrefu yn y tîm deddfwriaethol fel uwch-gyfieithydd ac yn mwynhau'r her o ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyfieithu testunau gwahanol iawn i'r hyn yr oeddwn yn ei wneud cyn ymuno â'r Gwasanaeth.

# Gofynion y swydd a'r Cynllun Datblygu

## Pwrpas y swydd a'r Cynllun Datblygu Cyfieithwyr

Gan weithio o fewn timau Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, byddwch yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i Gweinidogion, er mwyn galluogi'r Llywodraeth i gydymffurfio â gofynion ieithyddol statudol.

Bydd y Cyfieithwyr a benodir yn dilyn cynllun datblygu strwythuredig dros gyfnod o tua deunaw mis. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Cyfnodau'n gweithio yn yr unedau cyfieithu cyffredinol a deddfwriaethol, o dan oruchwyliaeth Uwch-gyfieithydd profiadol a fydd yn darparu adborth manwl ar y gwaith, er mwyn gwella sgiliau cyfieithu a datblygu dealltwriaeth o arddull, cyd-destun sefydliadol, a therminoleg y Gwasanaeth Cyfieithu.
- Cyfnodau'n gweithio yn uned ddatblygu'r Gwasanaeth (er mwyn meithrin arbenigedd ym meysydd arddull, terminoleg, enwau lleoedd a thechnoleg gyfieithu) ac yn yr uned fusnes (er mwyn deall y prosesau gweinyddol sy'n atgyfnerthu'r gwaith cyfieithu).
- Hyfforddiant a gweithgareddau dysgu a datblygu a fydd yn galluogi'r Cyfieithwyr i ddeall eu rolau fel cyfieithwyr a gweision sifil, ac i ddysgu am arferion arbenigol ac arloesol y Gwasanaeth a'r Llywodraeth.
- Cefnogaeth fugeiliol a deunyddiau i alluogi'r Cyfieithwyr i ddatblygu'n broffesiynol yn eu swyddi – disgwylir i'r Cyfieithwyr fod yn gyfrifol am gofnodi a rheoli eu datblygiad eu hunain, gan gynnwys gweithredu ar sail adborth.

Bwriedir i'r cynllun baratoi'r Cyfieithwyr i ymgeisio am ddyrchafiad i swyddi Uwch-gyfieithwyr (HEO) ar ddiwedd y cyfnod. Os na fydd y Cyfieithwyr yn llwyddiannus yn y broses ddyrchafiad, byddant yn parhau i weithio fel Cyfieithwyr (EO).

## Y prif dasgau

Gweithio fel aelod o dîm mawr o Gyfieithwyr ac Uwch-gyfieithwyr, ynghyd â staff cymorth a staff arbenigol eraill, sydd wedi'u lleoli ledled Cymru.

### Cyfieithu ysgrifenedig

- Cyfieithu o ddydd i ddydd dan arweiniad Uwch-gyfieithydd a fydd yn goruchwylio'ch gwaith. Yn ogystal ag adolygu'ch cyfieithiadau i sicrhau eu bod yn addas i'w diben, fe fydd yr Uwch-gyfieithydd hefyd yn rhoi adborth ichi ar bob darn o waith. Bydd disgwyl i chi ddysgu o'r adborth hwnnw er mwyn mireinio'ch sgiliau cyfieithu a datblygu'r gallu i gymryd cyfrifoldeb am ansawdd eich gwaith eich hun.
- Yn ystod eich 18 mis cyntaf yn y swydd, byddwch yn rhannu'ch amser rhwng gweithio yn yr Uned Cyfieithu Deddfwriaeth a'r Uned Cyfieithu Cyffredinol. Bydd y gwaith cyfieithu'n cynnwys amrywiaeth eang o destunau yn ymwneud â pholisïau Llywodraeth Cymru a'r ddeddfwriaeth.

## Terminoleg, arddull ac ansawdd

- Sicrhau bod eich gwaith cyfieithu yn gywir, yn briodol ac yn cydymffurfio bob amser â chywair, arddull a therminoleg safonol y Gwasanaeth Cyfieithu ar gyfer y math o destun dan sylw.
- Ymgyfarwyddo â'r prif egwyddorion ar gyfer safoni termau a dilyn trefniadau gosodedig y Gwasanaeth ar gyfer paratoi a rhannu termau drwy gyfrwng TermCymru.
- Cydweithio â chyfieithwyr ac eraill i sicrhau cysondeb ar draws arddull y Gwasanaeth Cyfieithu, a chynorthwyo i ddatblygu a rhannu'r canllawiau arddull a ddefnyddir ganddo.
- Treulio cyfnod o amser yn gweithio yn yr Uned Ddatblygu, sef yr Uned yn y Gwasanaeth Cyfieithu sy'n cefnogi'r gwaith cyfieithu o safbwynt terminoleg, arddull, iaith a thechnoleg. Byddwch yn cael eich trwytho yn hanfodion y broses o reoli terminoleg a chael profiad ymarferol o waith o'r fath, yn ogystal ag agweddau eraill ar waith yr Uned.

## Gwasanaeth i gwsmeriaid

- Meithrin perthynas â chwsmeriaid mewn meysydd polisi Gweinidogol neu dimau cyfreithiol penodol. Bydd hyn yn golygu deall gofynion cyfieithu Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun Rheolau Sefydlog Senedd Cymru a safonau'r Gymraeg, deall y gweithdrefnau deddfu a'r meysydd pwnc, a mynd i'r afael â materion sy'n codi wrth drefnu gwaith cyfieithu.
- Treulio cyfnod yn gweithio yn yr Uned Fusnes, sy'n prosesu'r ceisiadau cyfieithu, yn ymwneud â'n cwsmeriaid a'n cyflenwyr allanol, ac yn rhoi gweithdrefnau llywodraethiant a gweinyddu ar waith.

## Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

- Defnyddio systemau craidd y Llywodraeth, ynghyd â systemau a meddalwedd arbenigol y Gwasanaeth Cyfieithu, i'w llawn botensial o ddydd i ddydd. Mae'r systemau arbenigol yn cynnwys cof cyfieithu, system rheoli dogfennau, meddalwedd drafftio deddfwriaeth a meddalwedd fynegeio.
- Helpu'r Gwasanaeth i ddatblygu'r defnydd o offer TGCh arbenigol a chadw ar drywydd y datblygiadau technolegol diweddaraf sy'n hyrwyddo prosesau cyfieithu.

## Meithrin sgiliau eraill

- Ar ôl magu profiad o weithio yn y Gwasanaeth Cyfieithu, rhoddir cyfle i Gyfieithwyr feithrin sgiliau adolygu gwaith cyd-gyfieithwyr, prawfddarllen cyhoeddiadau, a gwirio gwaith swyddogion sy'n drafftio yn y Gymraeg.
- Gan ddibynnu ar gryfderau'r unigolyn ac anghenion busnes y Gwasanaeth, cyfrannu at brosiectau, gan gynnwys prosiectau cyfieithu a phrosiectau cyffredinol y tu hwnt i'r maes cyfieithu.
- Gan ddibynnu ar allu a phrofiad, helpu i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd Gweinidogol. Cynorthwyo, yn ôl y galw, ag agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd.
- Gwneud unrhyw dasg resymol arall ar gais arweinydd tîm neu reolwyr eraill y Gwasanaeth Cyfieithu.

## Cyfleoedd datblygu

- Gweithio mewn gwasanaeth cyfieithu mawr, amlddisgyblaeth, a mireinio ac ehangu'ch sgiliau cyfieithu.
- Dysgu rhagor am feysydd gwaith Llywodraeth Cymru a chyfrannu at waith y Llywodraeth ddatganoledig sy'n gwasanaethu pobl Cymru.
- Treulio cyfnod o amser yn dysgu hanfodion gwaith terminoleg ac arddull y Gwasanaeth Cyfieithu.
- Datblygu'ch defnydd o dechnoleg gyfieithu.
- Cyfle i wneud cais am ddyrchafiad i swydd Uwch-gyfieithydd ar ôl cwblhau'r 18 mis cyntaf yn llwyddiannus.
- Cefnogaeth i sefyll profion aelodaeth cymdeithasau cyfieithu proffesiynol, megis Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, yr ITI/IOL. Telir y ffioedd profi ac aelodaeth gan y Gwasanaeth Cyfieithu.

# Y broses recriwtio

Bydd hon yn broses recriwtio dri cham; bydd rhaid llwyddo yn y cam cyntaf i fynd i'r ail gam, etc:

- Sifft – asesiad o'r wybodaeth ar y ffurflen gais.
- Profion cyfieithu testun cyffredinol a deddfwriaethol (a fydd yn profi'r maen prawf sy'n ymwneud â sgiliau iaith a chyfieithu) (drwy Teams).
- Cyfweliadau (drwy Teams).

Gweler hysbyseb y swydd, a'r ffurflen gais ar system Cais, am y gofynion a'r meini prawf.

Mae'r broses yn digwydd yn unol â'r Proffiliau Llwyddiant, sef y fframwaith recriwtio a ddefnyddir o fewn y Gwasanaeth Sifil.
Mae rhagor o wybodaeth am y fframwaith ar wefan gov.uk: Proffiliau Llwyddiant – GOV.UK

Disgwylir nifer fawr o geisiadau am y swyddi hyn ac mae'r broses recriwtio'n debygol o gymryd cryn amser. Mae'n debygol y bydd y cynllun datblygu'n dechrau'n ffurfiol ym mis Medi 2025, ond gellir trefnu dyddiadau cychwyn cyn hynny os oes modd.

Gellir cadw rhestr wrth gefn ar gyfer y cyfle hwn. Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n llwyddiannus wrth gael cynnig statws wrth gefn yn aros ar y rhestr wrth gefn am 12 mis.

Disgwylir i'r ymgeiswyr a benodir aros yn y Gwasanaeth Cyfieithu am dair blynedd cyn ymgeisio am swyddi eraill yn y Llywodraeth.